CAN PREGETHWR.

GAN AWDWR YR "YMDDYDDAN RHWNG Y PARCHEDIG A'R BACHGENYN."

'Rwyf 'nawr mewn hwyl i ganu cân,
Os na fydd dramgwydd mawr ;
Fe ganodd Solomon cyn hyn,
Gwnaf finnau ganu 'nawr.

CYDGOR.

O, rhowch eich clust yn awr ar waith,
Rhowch hi ar waith yn llawn ;
A bernwch bcth sy ddrwg neu dda,
Anghywir neu yn iawn.

Pregethwr wyf sydd yn y byd,
A chenad dros ei Dduw ;
Ond dywed rhai mai twyllwr wyf,
A'r lleill, "Dyn ynfyd yw."
O, rhowch eich clust, &c.

Wel, 'rwyf yn was i Dduw yn wir,
Yn gweini yn y byd ;
Ond hona ereill yr un hawl,
Gan dynu'n groes i gyd.
O, rhowch eich clust, &c.

Cred un mai bedydd troch sy'n iawn,
A'r llall sydd dros y daen ;
Yn enw pobpeth, d'wedwch im',
Pwy ddarfu ddanfon rhai'n ?
O, rhowch eich clust, &c.

Pwy was boneddig yn y byd,
Nas gŵyr ei neges ef ?
Rhowch wybod im', ai dwlach yw
Holl weision Brenin Nef ?
O, rhowch eich clust, &c.

Addawai Pedr, yn ei ddydd,
I "bawb" *ddawn* Ysbryd Glân ;
Ond dywed "gweision Duw" yn awr,
I hyny fethu'n lân.
O, rhowch eich clust, &c.

'Roedd Ysbryd Duw, yr amser gynt,
Yn tywys pawb i'r gwir ;
Ond tystia'r Parchedigion 'nawr,
Na pharodd felly'n hir.
O, rhowch eich clust, &c.

Myn rhai eu bod yn dilyn Paul,
Serch credu'n hollol groes,
A dadleu nad yw doniau Duw
I'w caffael yn mhob oes.
O, rhowch eich clust, &c.

Os pallodd "prophwydoliaeth" gynt,
Os trodd "tafodau" 'n ddim,
Os aeth yr hyn "o ran" i ffwrdd,
Mae'r "perffaith" yn ei rym.
O, rhowch eich clust, &c.

Os felly, nid yw gweision Duw
"O ran" yn gwel'd yn awr ;
Nid mwy edrychant fry trwy ddrych,
'Nol dod o'r gwrthddrych lawr.
O, rhowch eich clust, &c.

Os na raid wrth "ddadguddiad" mwy,
Os oes goleuni yw,
Mae'n amser 'nawr i'r gweision oll
Gydweled cynllun Duw.
O, rhowch eich clust, &c.

Os profi dechreu crefydd Crist,
Oedd dyben "gwyrthiau" gynt ;
Wel, oni ddylid, meddwch chwi,
Ei phrofi ar ei hynt ?
O, rhowch eich clust, &c.

Os tywyll yw'r 'sgrythyrau oll,
Heb braidd un gair yn blain ;
Y coleg, neu yr Ysbryd Glân,
Sydd i egluro rhai'n ?
O, rhowch eich clust, &c.

Fe gred pregethwyr 'nawr o'r bron,
Na "elwir" neb gan Dduw,
Ond eir i le i ddysgu'r swydd,
Er trefnu modd i fyw.
O, rhowch eich clust, &c.

Myfi *a* hwythau'n weision Duw,
Sydd beth dyeithr iawn ;
Hwy'm galwant i yn "Satan" drwg,
Tra hwy o râs yn llawn !
O, rhowch eich clust, &c.

Os y'm ni *oll* yn weision Duw,
Fe gredwn *oll* ei air,
Y canlyn yr "arwyddion hyn"
Yr holl gredinwyr gair.
O, rhowch eich clust, &c.

A phawb a gredant iddo Ef,
A ŵyr mai geirwir yw ;
Ac fe â'r nef a'r ddaear ffwrdd,
Cyn pallo geiriau Duw.
O, rhowch eich clust, &c.

Ond er terfynu'r ddadl hyn,
Cyn bydd im' gwpla'r gân,
Dywedwch pwy o weision Duw
Sy'n addaw'r Ysbryd Glân ?
O, rhowch eich clust, &c.

Dim neb yn awr—gwnai Pedr gynt,
A phrofwyd ef o'r gwir ;
Wel, gwnewch yr hyn a ddysgaf fi,
A phrofwch finnau'n glir.
O, rhowch eich clust, &c.

WRTH LYNCU PELENI, GOFALED POB UN NA FYDDO, YN FYRBWYLL, YN LLYNCU EI HUN.